# Ymladd dros eich hawliau!




## Streic Doc Caerdydd, 1891

*Ffederasiwn Llongau yn annheg i forwyr!*

Roedd cyflogau'r morwyr yn cael eu pennu bob tro yr oedden nhw'n cofrestru ar gyfer mordaith newydd.


Byddai ceidwaid tai llety yn rhoi credyd un mis o gyflog i longwyr, ond pan fyddai'r morwyr wedi rhedeg allan o arian, roedd yn rhaid iddynt gofrestru ar gyfer gwaith, waeth beth fyddai'r cyflog.



Protest Undeb Llafur, 1890

*Streic y morwyr – mynnu cyflog sefydlog*


Dechreuodd Streic y Doc ar 5 Chwefror 1891. Mynnodd y streicwyr gael cyflog sefydlog a bod gwaith yn cael ei roi i aelodau'r undeb yn unig.



Dociau Caerdydd, tua 1890

## *Docwyr a thipwyr glo yn streicio i gefnogi'r morwyr*

Roedd angen cefnogaeth yr holl weithwyr a'u hundebau ar Undeb y Morwyr er mwyn i bobl wrando arnyn nhw. Ymunodd Undeb y Docwyr â'r streic, ond nid oedden nhw'n gryf. Er bod y tipwyr glo hefyd wedi mynd ar streic i ddangos eu cefnogaeth, wnaethon nhw ddim cyflwyno unrhyw ofynion eu hunain.




Cefnogwyr y streic, gan gynnwys gwragedd a phlant, 1891

*Y streic yn methu – dim cyflog sefydlog i forwyr eto*

Nid oedd yr undebau'n ddigon cryf i herio'r Ffederasiwn Llongau a'u cael i gytuno ar gyflog sefydlog i forwyr.

Roedd gan y trimwyr, y docwyr a'r llongwyr oll eu gofynion gwahanol ac nid oedden nhw'n streicio gyda'i gilydd. Petai nhw wedi cydweithio, efallai y byddai eu camau gweithredu wedi bod yn fwy effeithiol.



Protest Undeb Llafur

## Streic Rheilffordd Cwm Taf, 1900

*1,000 o aelodau undeb rheilffordd yn mynd ar streic dros driniaeth annheg tuag at un gweithiwr*


Nid oedd Cwmni Rheilffordd Cwm Taf (TVR) yn caniatáu i'w gweithwyr ffurfio undeb. Er bod nifer o'i weithwyr yn aelodau o'r Gymdeithas Cyfunedig Gweision Rheilffordd (ASRS), nid oedd y cwmni yn cydnabod hynny.

Roedd dynion rheilffordd yn gweithio oriau hir, afreolaidd a chan fod Cwmni TVR yn benderfynol o gadw costau i lawr, roedd codiad cyflog yn annhebygol.

Ar 20 Awst 1900, aeth 98% o weithwyr TVR allan ar streic, ar ôl i John Ewington gael ei drin yn annheg. Roedd John wedi gwneud cais am gyflog uwch. Cafodd ei gais ei wrthod a chafodd ei gosbi am ofyn drwy gael ei symud i orsaf wahanol. Nid oedd rhai o'r streicwyr wedi rhoi'r pythefnos llawn o rybudd i'r rheolwyr a oedd yn ofynnol.

Ceisiodd streicwyr stopio'r rheilffordd rhag rhedeg drwy roi saim ar lethrau'r rheilffordd, dadgyplu'r wagenni ac atal y torrwyr streic (y blaclegs) rhag gweithio.


Roedd y streicwyr eisiau ffurfio undeb, neu fwrdd cymodi fel bod eu cwynion yn cael gwrandawiad ac yn cael eu trin yn y modd cywir. Roedden nhw hefyd eisiau cael gwared â'r blaclegs, y bradwyr, i gyd.




Gweithwyr TVR, 1900

*Tŷ'r Arglwyddi yn cefnogi £23,000 o gostau iawndal i gwmni am golli busnes*

Erlynodd Cwmni TVR yr ASRS, ac yn 1901 gwnaeth Tŷ'r Arglwyddi ddatgan bod yr undeb yn gyfrifol am y streic a'i effeithiau. Gorchmynnwyd iddynt dalu £23,000 i Gwmni TVR am golli enillion a £25,000 mewn costau cyfreithiol.


TAFF VALE RAILWAY.

NOTICE.

THERE WILL BE

NO TRAINS RUN

BY THIS COMPANY,

ON SUNDAY,

AUGUST 26TH.


A. BEASLEY,

Cardiff, August 24th, 1900. GENERAL MANAGER.

Poster yn datgan na fyddai trenau'n rhedeg oherwydd streic.

*Ergyd i undebau – gellir nawr eu herlyn am streiciau*

Galwyd hwn yn Ddyfarniad Cwm Taf. I bob pwrpas, gwnaeth aelodau undeb yn gyfrifol am goll edion y cwmni yn ystod y streic. Daeth streicio yn ddull diwerth o ymladd dros hawliau'r gweithwyr.




Picedwyr y tu allan i swyddfa Rheilffordd Cwm Taf.

## *Ond...pasiwyd Deddf Anghydfodau Diwydiannol 1906!*

Ar ôl Dyfarniad Cwm Taf, sylweddololodd arweinwyr undeb ei bod yn bwysig cael cyfreithiau i ddiogelu gweithwyr. Roedd angen ASau yn y Senedd a fyddai'n cynrychioli a chefnogi hawliau gweithwyr ac undeb.

Sefodd rhagor o ddynion dosbarth gweithiol a chael eu hethol i'r Senedd. Arweiniodd Streic a Dyfarniad Cwm Taf hefyd yn uniongyrchol at ddatblygu'r Blaid Lafur.

Cafodd Keir Hardie, AS Llafur Annibynnol cyntaf y wlad ei ethol yn 1901 a chafodd ei Ddeddf Anghydfodau Diwydiannol ei basio yn 1906. Nid oedd undebau yn gallu cael eu herlyn mwyach am golledion yn ystod streic.




Cartŵn o'r Daily Graphic

## Streic y Morwyr, 1911

*Morwyr Caerdydd yn streicio i gael gwell amodau a chyflog*

Gwaith dros dro oedd gwaith llongwyr a doedd dim isafswm cyflog. Cyfraddau cyflog morwyr Caerdydd oedd yr isaf ym Mhrydain.

Roedd llongwyr eisiau cyflog safonol, taliadau goramser a bwrdd cymodi, lle gallai'r undebau, perchnogion llongau a'r Ffederasiwn Llongau drafod a datrys materion. Dechreuon nhw streicio ar 14 Mehefin 1911.


Cafodd y gweithredu ei ysgogi gan 'Capten' Tupper a threfnodd bicedi i atal gwaith rhag mynd yn ei flaen yn ystod y streic.




Baner yn cyhoeddi'r streic

*Perchnogion Llongau'n defnyddio gweithwyr i dorri'r streic, ymosod ar forwyr Tsieineaidd*

Cafwyd golygfeydd treisgar wrth i longwyr oedd yn streicio a Tupper geisio stopio perchnogion llongau rhag dod â morwyr o borthladdoedd eraill i wneud gwaith y streicwyr. Ymosododd streicwyr ar long ym Masn y Rhath ar ôl i Tupper ddweud wrth dorf fod morwyr Tsieineaidd arni yn aros i gofrestru i weithio.



Llongwyr Tsieineaidd dan osgordd heddlu.

*Tsieineaid diniwed yn byw yn y ddinas yn cael eu dal yn y trais*

Aeth y tensiynau yn ormod ac ymosodwyd ar gymuned o Tsieineaid a fu'n byw yng Nghaerdydd ers blynyddoedd. Ar noswaith 20 Gorffennaf ymosodwyd ar bob Golchdy oedd yn cael eu rhedeg gan y gymuned Tsieineaidd yn y ddinas, heblaw am un.




Ymosodiad gan derfysgwyr ar un o'r tai golchi Tsieineaidd.

***Streic y morwyr drosodd, rheolwyr yn cytuno â'r rhan fwyaf o'r hyn yr oedden nhw'n ei fynnu***

O'r diwedd, daeth y streic i ben tua diwedd mis Awst yn dilyn setliad a hwyluswyd gan yr Arglwydd Faer yn Neuadd y Ddinas.

Y tro hwn, yn wahanol i Streic y Morwyr yn 1891, cefnogodd holl weithwyr y dociau achos y morwyr gan stopio gweithio mewn cydymdeimlad.

O'r diwedd llwyddwyd i gael cyflog safonol ac enillodd llongwyr a oedd yn cael eu talu'n fisol godiad cyflog o hyd at 17% hefyd. Er hynny, ni fyddai unrhyw daliadau goramser.



Dathlu diwedd Streic y Morwyr.

# Siarter Gweithwyr Tai Golchi, 1911

*Gweithwyr benywaidd tai golchi yn streicio yng Nghaerdydd*
*Diffyg trefn i'r streic*

Gwelwyd 'trafferthion llafur' yng Nghaerdydd yn haf 1911, wrth i weithwyr o nifer o ddiwydiannau fynd ar streic, i brotestio am amodau, hawliau a thâl gweithwyr. Roedd llun yn y Western Mail ar 25 Gorffennaf o gludwyr a gweithwyr bragdy yn annog eraill i streicio, roedd gweithwyr benywaidd hefyd yn protestio.

Dywedwyd bod merched sigâr o JR Freemans a'i Feibion, merched potelu a gweithwyr tai golchi yn crwydro strydoedd Caerdydd, heb arweinwyr, trefn na chyfeiriad clir.



Gweithwyr dur Dowlais yn cynnal cyfarfod yn ystod streiciau 1911.

## *Cangen Caerdydd o Gynghrair Llafur y Gwragedd yn rhoi arweiniad*

Trefnodd Mrs Schofield, Ysgrifenyddes cangen Caerdydd o'r Gynghrair Llafur y Gwragedd gyfarfod yn Sefydliad Ruskin i helpu a chynghori'r merched. Aeth hi a Margaret Bondfield (sef Ysgrifenyddes Cynghrair Llafur y Gwragedd bryd hynny, yn ddiweddarach hi fyddai Gweinidog Cabinet benywaidd cyntaf y DU) i chwilio am wragedd oedd yn streicio ar strydoedd ac ym mharciau Caerdydd, gan gynnal cyfarfodydd byrfyfyr i annog eu cefnogaeth a'u gweithredu.


Ar y nos Lun honno cynhaliwyd gorymdaith, gyda thorf fawr o wragedd yn cerdded o dan faner Undeb y Gweithwyr.

Y diwrnod canlynol, gyda chymorth Matt Giles (trefnydd llawn amser Undeb y Gweithwyr yn Ne Cymru), cafodd y protestwyr eu dadansoddi a sylweddolodd y Cynghrair mai gweithwyr golchdy oedd nifer fawr ohonynt. Trwy gydol y dydd fe weithion nhw i recriwtio rhagor i'w hachos.

## *Pwyllgor streicwyr yn drafftio SIARTER GWEITHWYR TAI GOLCHI*

## *Siarter yn nodi amodau gwaith derbyniol mewn tai golchi*

Ar y dydd Mercher, cynhaliwyd cyfarfod gorlawn o weithwyr tŷ golchi yn Neuadd Cory. Ar ôl ethol pwyllgor, a adawodd wedyn i ddrafftio'r Siarter Gweithwyr Tai Golchi mewn ystafell arall, diddanodd gweddill y cyfarfod eu hunain gyda chyngerdd byrfyfyr!



Ffotograffau streic tŷ golchi yn y Western Mail.

*Setlo'r anghydfod yn gyfeillgar*

Cysylltodd y cyflogwyr tai golchi â'r Undeb i drafod hyd yn oed cyn i'r Siarter gael ei orffen. Daeth Matt Giles a Margaret Bondfield i siarad â chymdeithas y cyflogwyr a oedd wedi cael ei sefydlu'r bore hwnnw.

Yn ôl disgrifiad Bondfield, "roedd y negodwyr yn drefnus ac yn awyddus i setlo pethau, daethom i delerau mewn ysbryd cyfeillgar, a chafodd y siarter sy'n symud y diwydiant hwn o lanast i ddatblygiad trefnus, ei lofnodi."



Margaret Bondfield

## Streic Cyffredinol, 1926

*Cwymp mawr mewn prisiau glo! Perchnogion pyllau glo yn galw am gyflogau is, a diwrnodau gwaith hirach*

Ar ôl gwrthod lleihad cyflog o 13% ac awr ychwanegol ar y diwrnod gwaith fel a gynigiwyd gan y Llywodraeth, cafodd glowyr eu cloi allan o byllau ledled y wlad ar 30 Ebrill 1926.

Dros y deuddydd nesaf, ceisiodd Cyngres yr Undebau Llafur (TUC) ddod i gytundeb â'r Llywodraeth a pherchnogion pyllau, ond daeth y Prif Weinidog Stanley Baldwin â'r trafodaethau i ben.




Ras Ffordd Glowyr Lles, 1926

## *3 miliwn ar streic cyffredinol i gefnogi'r glowyr*

Daeth y diwydiannau allweddol, sef trafnidiaeth, argraffu, dociau, gweithfeydd haearn a dur allan i gefnogi'r glowyr mewn streic cyffredinol.




Gwragedd yn berwi dŵr yn ystod y Streic Cyffredinol.

## *Dinas, dociau a thrafnidiaeth Caerdydd yn dod i stop*


Cafodd pwyllgor streic canolog ei sefydlu yng Nghaerdydd yn Heol Charles. Ar 4 Mai, stopiodd gweithwyr trafnidiaeth, argraffu, haearn a dur weithio, ac wyth diwrnod yn ddiweddarach ymunodd y seiri llongau a'r gwneuthurwyr boeleri â nhw. Cafodd neuaddau llafur lleol eu defnyddio fel canolfannau cyfarfod a threfnu.




Plant y tu allan i Neuadd Llafur Sblot, yn aros am gawl.

*ANGEN GWAITH ALLFORIO GLO AR FORWYR – annog glowyr i orffen y streic a derbyn cyflog is*

Fodd bynnag, gwrthododdd morwyr Caerdydd gefnogi'r streic. Roedden nhw'n dibynnu ar y glowyr am eu gwaith, sef cludo glo Cymru o gwmpas y byd ar longau. Fe wnaethon nhw hyd yn oed alw ar y glowyr i weithio oriau hirach er mwyn helpu morwyr di-waith. Roedd nifer o bobl fusnes a dosbarth canol Caerdydd hefyd yn cefnogi'r Llywodraeth.




Cwnstabliaid arbennig yn gwarchod y bysus a oedd yn parhau i redeg yn ystod y Streic Cyffredinol.

*Streic cyffredinol drosodd...Newyn yn gorfodi'r glowyr i fynd nôl i'r gwaith ar delerau'r cyflogwyr*

Ar ôl deg diwrnod galwodd y TUC ddiwedd ar y streic a pharhaodd y glowyr ar eu pen eu hunain. Heb unrhyw gefnogaeth arall, cawsant eu gorfodi'n ôl i'r gwaith yn y pen draw, am oriau hirach a llai o gyflog.




Diwedd y Streic Cyffredinol

## Protestiadau Pensiynau Allied Steel and Wire, 2002-2007

### *Cwmni Allied Steel and Wire Caerdydd yn nwylo'r derbynnydd*


Cafodd Allied Steel and Wire (ASW) ei ffurfio yn 1981 drwy bartneriaeth rhwng Dur Prydain a Guest, Keen a Nettles. Fel ail gwmni dur mwyaf Prydain, roedd yn cyflogi tua 1,000 o bobl yng Nghaerdydd.

Yn sgil mewnforio Ewropeaidd rhad, cynyddu cost deunyddiau a chwymp mawr yn y farchnad stoc, gorfodwyd ASW i ddwylo'r derbynnydd ar 10 Gorffennaf 2002.

Cafodd eiddo a nwyddau'r cwmni eu gwerthu i ad-dalu'r arian oedd arnyn nhw i'w credydwyr, a chyhoeddwyd y byddai'r cynllun pensiwn yn cael ei dorri. Ni fyddai'r gweithwyr hynny a oedd wedi talu i mewn i'r cynllun ar hyd eu bywydau yn cael eu pensiwn llawn.

*Dros 800 o weithwyr dur yn colli eu swyddi Sioc wrth i weithwyr a ddiswyddwyd golli eu pensiwn*

Collodd tua 800 o bobl yng Nghaerdydd eu swyddi a'u pensiynau.




Protest Pensiwn Allied Steel and Wire, Caerdydd, 2003

*Protestiadau dig yng Nghaerdydd a Llundain*

O 2002 ymlaen, cafodd gorymdeithiau eu trefnu yng Nghaerdydd, a cheisiodd y protestwyr gael cefnogaeth yng nghynhadledd y Blaid Lafur. Cynhaliwyd gwylnosau a phrotestiadau y tu allan i Senedd San Steffan a'r Senedd yng Nghaerdydd i roi pwysau ar y Llywodraeth i dalu'r pensiwn yn llawn, ac am gyfreithiau newydd i ddiogelu pensiynau y gweithwyr.

Sefydlodd y Llywodraeth y Cynllun Cynorthwyol Ariannol (FAS) yn 2004 i helpu gweithwyr i gael hyd at 90% o'u pensiynau drwy dalu iawndal iddynt. Cafodd y Ddeddf Bensiynau ei phasio'r flwyddyn honno hefyd, gan wella'r modd y rhedir cynlluniau pensiwn a sefydlu'r Gronfa Diogelu Pensiynau i ddarparu budd-daliadau i'r bobl a oedd wedi talu i mewn i gynlluniau pensiwn ond nad oedd wedi derbyn unrhyw bensiwn.

Fodd bynnag, byddai'r Gronfa hon ond yn rhoi i'r bobl a oedd wedi colli eu pensiynau ar ôl 2005, felly nid oedd yn cynnwys gweithwyr ASW.


***Gweithwyr yn hawlio iawndal – mynd â'r Llywodraeth i'r llys yn y DU ac Ewrop***

Yn Ionawr 2007, penderfynodd y Llys Cyfiawnder Ewropeaidd bod Llywodraeth y DU wedi torri cyfraith Ewropeaidd drwy beidio â diogelu pensiynau.

***Gweithwyr yn ennill 90% o'u pensiynau, rhai yn parhau i ymladd am 100%***

Yn y diwedd, yn Rhagfyr 2007, cyhoeddodd y Llywodraeth becyn achub gwerth £2.9 biliwn ar gyfer pensiynwyr. Roedd hyn, ynghyd â'r FAS, yn golygu y byddai gweithwyr, gan gynnwys gweithwyr ASW, yn cael 90% o'u pensiynau.

Mae rhai yn dal i ymladd am 100%...




Protest Pensiwn Allied Steel and Wire, Caerdydd.